A FYDDWCH CHI'N GOROESI'R DYDDIAU DIWETHAF?

Nodyn i'r siaradwr:
Ceisia gyfleu bod ein dyddiau ni yn fater o frys. Profa, heb amheuaeth, ein bod ni yn y dyddiau diwethaf. Anoga'r gynulleidfa i weithredu'n gadarnhaol er mwyn bod ymhlith y rhai sy'n goroesi

DYLAI GOROESI'R DYDDIAU DIWETHAF BOD YN BWYSIG I NI (2 fun.)

Heddiw, mae Tystion Jehofa yn pregethu'n fyd-eang bod y dyddiau diwethaf wedi cyrraedd

A ydyn ni *wir* yn byw yn nyddiau diwethaf y system hon? A oes unrhyw dystiolaeth? Beth sydd ei angen er mwyn goroesi?

Yn y ganrif gyntaf, roedd Iesu'n rhybuddio bod trefn Iddewig yr oes honno ar fin cael ei dinistrio

Mi fedrwn ni ddysgu o esiampl y rhai oedd wedi adnabod ac wedi goroesi diwedd yr hen drefn Iddewig

RHAGFYNEGODD IESU DDIWEDD Y DREFN IDDEWIG (7 mun.)

Rhoddodd Iesu rybudd yn esbonio'r digwyddiadau a oedd am ddod cyn i'r drefn Iddewig cael ei dinistrio **[Darllena Mathew 24:1-8]**

Dywedodd wrth ei ddisgyblion i ffoi pan fyddai Jerwsalem yn cael "ei hamgylchynu gan fyddinoedd" (Lc 21: 20-22; *w15*-E 7/15 14-15 ¶1-3)

Mae hanes yn cadarnhau y cafodd proffwydoliaeth Iesu ei chyflawni yn y ganrif gyntaf (*w07*-E 4/1 8-11)

O dan reolaeth Cestius Gallus, daeth y Rhufeiniaid yn y flwyddyn 66 OG ac yna dyna nhw'n encilio, yn rhoi cyfle i ddisgyblion Iesu ffoi (*w12*-E 4/15 25-26 ¶13-15)

Yn y flwyddyn 70 OG, dychwelodd y Rhufeiniaid, gan ddod â dinistr y dyddiau diwethaf i'w hanterth

Roedd gan y rhai a glywodd broffwydoliaeth Iesu ddigon o dystiolaeth o'i chyflawniad, felly gweithredodd y disgyblion ffyddlon er mwyn goroesi

Hefyd, rhagfynegodd Iesu y byddai llawer heb ddirnadaeth yn anwybyddu'r rhybudd **[Darllena Luc 19: 43, 44]**

MAE'R BROFFWYDOLIAETH YNGLŶN Â DIWEDD Y DREFN YN BERTHNASOL HEDDIW (7 mun.)

Mae hanes yn profi y cafodd darnau mawr o'r broffwydoliaeth ym Mathew 24 gyflawniad rhwng 33 OG a 70 OG (Mth 24:4-22)

Ers sefydliad Teyrnas Dduw yn y flwyddyn 1914, mae proffwydoliaeth Iesu wedi cael cyflawniad byd-eang (*g*-E 10/12 26-28)

Mae'r broffwydoliaeth yn llyfr Datguddiad, pennod 6 yn sôn am lawer o ryfeloedd, newyn, a phla ar y ddaear adeg coroni Iesu (*w14*-E 1/15 28-29 ¶4-7)

Cafodd llyfr Datguddiad ei ysgrifennu chwarter canrif ar ôl i'r drefn Iddewig ddod i ben

Mae'r cytundeb rhwng Mathew 24 a Datguddiad 6 yn dangos bydd cyflawniad arall o Mathew 24 yn y *dyfodol*

Felly, mae hanes a'r Beibl yn dangos bod prif gyflawniad Mathew 24 yn digwydd nawr

TYSTIOLAETH BELLACH I DDANGOS EIN BOD NI'N BYW YN Y "DYDDIAU DIWETHAF" (6 mun.)

Mae proffwydoliaeth arall ynglŷn â'r "dyddiau diwethaf" i'w gweld yn 2 Timotheus 3:1-7 **[Darllena adnod 1]**

Disgrifiodd Paul y gweithrediadau a'r agweddau a fydd yn gyffredin yn y dyddiau diwethaf **[Trafoda 2 Timotheus 3:2-5]**

Nid oedd Paul yn cyfeirio at ddyddiau diwethaf y drefn Iddewig (*w94*-E 4/15 10-11 ¶14-17; *it*-2-E 206 ¶6)

Mae'r broffwydoliaeth hon yn sôn am ein hoes ni (*w14*-E 1/15 29-30 ¶8-13; *w06*-E 9/15 5-6)

Felly, mae proffwydoliaethau o'r Beibl yn dangos yn glir ein bod ni'n byw yn nyddiau diwethaf y system hon

MAE ANGEN GWEITHREDU ER MWYN GOROESI'R DYDDIAU DIWETHAF (8 mun.)

Er gwaethaf y dystiolaeth, mae llawer o bobl yn gwawdio, yn ôl pob tebyg, fel roedd trigolion Jerwsalem yn eu gwneud yn fuan cyn iddi gael ei dinistrio yn 70 OG (2Pe 3:3, 4)

Mae hi'n hynod o bwysig bod ein hymddygiad duwiol a'n defosiwn yn dangos yn glir ein bod yn byw yn nyddiau olaf byd Satan **[Darllena 2 Pedr 3:11, 12a]**

Bydd rhaid i nifer o bobl wneud newidiadau yn eu bywydau ar ôl iddyn nhw ddysgu bod dinistr yn agos

Mae Tystion Jehofa yn barod i gynnig help iddyn nhw drwy astudio'r Beibl gyda nhw yn rhad ac am ddim

I'r rhai sydd eisoes yn gwasanaethu Jehofa, mae'n hanfodol bwysig eu bod nhw'n effro a'u bod nhw ddim wedi ymgolli ym mhryderon bywyd bob dydd (*w06*-E 12/15 18-19 ¶17-18)

Nawr yw'r amser i weithredu ac aros yn gadarn er mwyn inni oroesi **[Darllena 2 Pedr 3:14]** (*w10*-E 7/15 9 ¶10-11)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania